

Tonnau P ac S

MERCH O, be wnawn ni?

DYN Y cwestiwn mawr yw, o le mae'r daeargrynfeydd 'ma yn dod?

DYLAN Beth? Ni'n gwybod o ble ma' nhw'n dod! Drycha lan!

OWAIN Hei, rho gyfle i'r ffilm. Mae'n glasur!

DYLAN Wir yr? "O le mae'r daeargrynfeydd 'ma yn dod?"

ADA Helo Dylan. Mae gwyddonwyr yn dod o hyd i ddaeargrynfeydd drwy ganfod y tonnau maen nhw'n eu cynhyrchu. Mae daeargryn yn cynhyrchu dau fath o donnau. Tonnau P, rhai cynradd. Rhain sy'n digwydd yn gyntaf ar ôl daeargryn, a thonnau S eilaidd, sy'n ail.

Gall tonnau P deithio'r holl ffordd drwy'r Ddaear, gan gynnwys drwy solidau a hylifau. Dim ond drwy solidau y gall tonnau S deithio. Dyma sut wnaeth daearegwyr ddarganfod mai hylif yw craidd y Ddaear. Fe welson nhw nad oedd tonnau S yn gallu teithio drwy'r craidd; gan ddatguddio cysgod.

Drycha fan hyn. Mae'r seismomedr wedi synhwyro dau aflonyddiad. Y cynta yw'r don P a'r un nesaf yw'r don S. I gyfrifo pa mor bell mae uwchganolbwynt daeargryn, gallwn ddefnyddio'r oediad amser rhwng y tonnau P a S.

DYLAN S'mo ni angen cyfrifo dim, Ada, mae'r bwystfil sy'n gyfrifol, wel, ma' fe draw fan 'na.

ADA Enw'r amser rhwng ton P a thon S yw oediad amser. Mae'n dweud bod 8 munud wedi mynd heibio rhwng ton P a thon S. Dyma'r oediad amser.

Gallwn ddefnyddio'r wybodaeth yma ar graff mudiant amser. Ar echelin-y, sy'n cynrychioli'r amser teithio, gosoda ddarn o bapur a thynnu llinell o 0 i 8. Yna symuda'r papur nes bydd y ddwy linell yn cyffwrdd y ddwy gromlin. Gwiria'r pwynt hwn ar echelin-x, gan mai hwn sy'n mesur y pellter o'r uwchganolbwynt. 6,500 cilometr.

MERCH O wybod yr oediad amser...

DYN Dewn ni o hyd i'r pellter o'r uwchganolbwynt!

Bitesize

ADA

Dw i 'di gweld y ffilm yma'n barod - mae pawb yn dianc yn y diwedd!